

Fferm tir uchel o oddeutu 200ha, lle cedwir diadell o 1,500 o famogiaid Cheviot Gogledd Lloegr yn bennaf. Cyflwynwyd geneteg Romney a Texel Seland Newydd i'r fferm yn ddiweddar. Mabwysiadwyd system debyg i'r hyn a ddefnyddir yn Seland Newydd, sy'n golygu fod y ddiadell yn cael ei rhedeg yn unol a fframwaith A&B. Caiiff ŵyn benyw a allai gael eu defnyddio'n anifeiliaid amnewid eu cadw mewn un grŵp mawr ar ôl eu diddyfnu fel bod modd cymharu perfformiad a chael gwared ar yr anifeiliaid gwannaf. Bydd unrhyw oen nad yw'n ffynnu dan yr amodau hyn yn cael ei werthu. Hefyd, cedwir buches o 45 o wartheg sugno i gyd-fynd â system bori'r defaid.



Mae hanfodion system gynhyrchu fferm Pentre yn dibynnu ar reoli tir glas yn arbennig o dda. Mae Tom Jones, wrth ffermio ochr yn ochr â'i dad, wedi mabwysiadu nifer o strategaethau rheoli i wneud yn siŵr fod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o'r glaswellt a gynhyrchir ar y fferm. Mae Mr Jones yn teimlo bod rheolaeth yn allweddol i dyfiant glaswellt a'i bod yn bwysig ymaddasu i wahanol fathau o dywydd a thir.

Ar ei daith i Seland Newydd, fel rhan o Ysgoloriaeth HCC, darganfu Mr Jones y planhigyn llyriad. Mae'n blanhigyn lluosflwydd tebyg i sicori ac mae'n rhannu sawl nodwedd. Gall y cnwd gael ei ddefnyddio o fewn systemau pori ar gyfer da byw ac roedd yn amlwg i Mr Jones fod y cnwd yn gweithio'n dda mewn system bori ar gyfer pesgi ŵyn.

Mae gan lyriad system wreiddiau ffibrog ddwfn, mae'n tyfu'n arbennig o dda mewn priddoedd llai ffrwythlon ac mae hefyd yn ymateb yn arbennig o dda i nitrogen. Mae'r cnwd yn cynnwys llawer o galsiwm, magnesiwm, ffosfforws, sodiwm, sinc, copr a chobalt, ac mae'n helpu'r anifail i gadw copr, sodiwm a magnesiwm yn ei gorff.

Ar ôl dysgu am y ffordd roedd llyriad yn cael ei ddefnyddio, roedd Mr Jones am roi cynnig arni ei hun er mwyn cymharu'r system y tymor canlynol â'i system arferol o laswellt a meillion.

Yn 2015, am y tro cyntaf, heuwyd 4kg/erw o hadau llyriad a meillion gwyn i dir pori parhaol a gafodd ei chwistrellu. Tyfodd y llyriad yn dda ac roedd Mr Jones yn fodlon iawn â'r canlyniadau. 'Dydy'r llyriad ddim wedi siomi hyd yn hyn; gwelais gynnydd yng nghanran y pwysau ar ôl lladd, mae'r ŵyn yn pesgi'n gynt ac mae'n gwneud porfwyd da i famogiaid ar ôl wyna.'

Mae'r tabl isod yn rhoi tystiolaeth o fanteision llyriad o'i gymharu â'r tir glas presennol o laswellt a meillion ar fferm Mr Jones.

Menbwn	Llyriad	Glaswellt
Hadau	£44	£59
Gwrtait	£17.40	£54
Chwistrellu a Drilio	£34	£34
Cyfanswm	£95.40	£147

207 o Ŵyn	Llyriad	Glaswellt
Pwysau dechrau pori	30.2kg	30.9kg
Pwysau byw ar ôl 60 diwrnod	38.2kg	39.2kg
Ŵyn wedi pesgi ar ôl 60 diwrnod	39 â phwysau cyfartalog o 42.3kg	34 â phwysau cyfartalog o 43.1kg
Pwysau lladd	841.23kg	659.60
Pwysau lladd cyfartalog	21.57kg	19.4kg

Mae'n amlwg fod llyriad yn cynnig dull cost-effeithiol y gellir ei ddefnyddio'n rhydd mewn systemau tir glas. Mae'r cnwd yn rhatach i hau ac yn ymofyn llai o nitrogen na thir glas glaswellt a meillion, sy'n golygu nad oes angen gwario cymaint ar wrtaith. Mae'n syndod bod y ganran ladd yn uwch gyda llyriad nag yw gyda'r system laswellt, er bod y pwysau byw yn 60 diwrnod oed yn uwch ar laswellt.

Bu llyriad yn llwyddiannus ar fferm Pentre; mae wedi ymaddasu'n dda ac mae'n darparu porfwyd rhagorol ar gyfer pesgi ŵyn. Cyfrannodd at leihau costau dwysfwydydd ac mae'n rhoi manteision iechyd ychwanegol i'r da byw.

Llyriad: y ffeithiau:

- Llawer o brotein, fel arfer 19.8-28.1 y cant o brotein amrwd
- Porfwyd ffibrog, sy'n caniatáu i'r anifail i gnoi cil
- Gwerth treuliadwy uchel ac yn cynnwys taninau a mwynau
- Yn well i ffurfiant y pridd na rhygwelld
- Nodweddion gwrthlyngyrol ysgafn
- 11 y cant o gynnwys sych
- Yn gallu gwrthsefyll sychder.